**Rhif: WG40381**

Llywodraeth Cymru

# Ymgynghoriad – Crynodeb o'r ymatebion

## Ymgynghoriad ar becyn cymorth gweithredu cwnsela mewn ysgolion ac yn y gymuned drafft

Mawrth 2020

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.
This document is also available in English.

© Hawlfraint y Goron ISBN Digidol 978-1-80038-331-9

# Pecyn cymorth gweithredu cwnsela mewn ysgolion ac yn y gymuned (diwygiwyd 2020)

| | |
|---|---|
| **Cynulleidfa** | Darparwyr a rheolwyr gwasanaethau cwnsela; gweithwyr proffesiynol eraill gan gynnwys athrawon, gwasanaethau brys, gweithwyr cymdeithasol, gweithwyr yn y trydydd sector a phobl sy'n gweithio mewn gwasanaethau ieuenctid |
| **Trosolwg** | Roedd yr ymgynghoriad hwn yn ceisio sylwadau ar ddrafft diwygiedig y pecyn cymorth cwnsela a gyhoeddwyd am y tro cyntaf yn 2011. |
| **Y camau y mae angen eu cymryd** | Dim camau gweithredu – er gwybodaeth yn unig. |
| **Rhagor o wybodaeth** | Dylid cyfeirio ymholiadau am y ddogfen hon i:<br>Cangen Iechyd a Lles<br>Is-adran Cymorth i Ddysgwyr<br>Llywodraeth Cymru<br>Parc Cathays<br>Caerdydd CF10 3NQ<br>@LlC_addysg<br>Facebook/AddysgCymru |
| **Copïau ychwanegol** | Mae'r ddogfen hon ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru yn www.llyw.cymru/addysg-a-sgiliau |
| **Dogfennau cysylltiedig** | Dogfen ymgynghori Llywodraeth Cymru – Pecyn cymorth gweithredu cwnsela mewn ysgolion ac yn y gymuned (2019) |

## Cynnwys


1. Cyflwyniad
2. Crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad
3. Y camau nesaf

## Cyflwyniad

Cyhoeddwyd y Pecyn Cymorth Gweithredu Cwnsela mewn Ysgolion am y tro cyntaf yn 2011. Ar y pryd, roedd y pecyn cymorth yn adeiladu ar y Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Cwnsela mewn Ysgolion a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru yn 2008. Gyda'i gilydd, roedd y Strategaeth Genedlaethol a'r Pecyn Cymorth yn paratoi'r ffordd ar gyfer deddfwriaeth newydd (o dan Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion [Cymru] 2013), yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol gynnig darpariaeth resymol o wasanaethau cwnsela annibynnol i blant a phobl ifanc rhwng 11 a 18 oed a disgyblion ym Mlwyddyn 6 yn yr ysgol gynradd.

Roedd Pecyn Cymorth 2011 yn waith ar y cyd i raddau helaeth rhwng Llywodraeth Cymru a Chofrestr Cymdeithas Cwnsela a Seicotherapi Prydain (BACP) a dros y blynyddoedd diwethaf daeth yn glir ei bod yn hen bryd diwygio'r ddogfen. Roedd Adroddiad *Cadernid Meddwl* (Ebrill 2018) y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg wedi cyflymu'r gwaith o adolygu'r pecyn cymorth am ei fod, ymhlith pethau eraill, wedi awgrymu y dylai Llywodraeth Cymru asesu ansawdd y cwnsela sydd ar gael, yn arbennig y ffordd y mae'r gwasanaeth yn ymdopi â galw cynyddol, yn mynd i'r afael â stigma ac yn diwallu anghenion plant a phobl ifanc. Roedd hyn yn cynnwys diweddaru a diwygio pecyn cymorth cwnsela 2011.

Mae fersiwn ddiwygiedig y Pecyn Cymorth Gweithredu Cwnsela mewn Ysgolion ac yn y Gymuned Drafft wedi cael ei datblygu mewn cydweithrediad agos â gweithgor yn cynnwys arweinwyr ym maes cwnsela a darparwyr gwasanaethau cwnsela o awdurdodau lleol ledled Cymru. Mae'r gwaith o'i lunio hefyd wedi cynnwys cryn dipyn o fewnbwn gan gydweithwyr BACP.

Nod y pecyn cymorth diwygiedig yw helpu ysgolion a cholegau i ddeall eu cyfrifoldebau cyfreithiol yn well ac i egluro sut beth yw ymarfer cwnsela effeithiol. Mae rhai o'r newidiadau yn ffeithiol eu natur, gan adlewyrchu'r diweddariadau diweddar yn neddfwriaeth Cymru, ond mae'r rhan fwyaf yn adlewyrchu arfer gorau. Bydd yn darparu ffynhonnell werthfawr i ddarparwyr gwasanaethau cwnsela a rheolwyr gwasanaethau cwnsela o ran yr arfer gorau ar gyfer darparu'r gwasanaeth mewn ysgol a lleoliad cymunedol. Yn bwysicach na hynny, bydd yn hybu darpariaeth gyson a thegwch o ran mynediad i'r bobl ifanc hynny y mae angen y gwasanaeth arnynt.

Lansiwyd ymgynghoriad ar 23 Hydref 2019 a daeth i ben ar 18 Rhagfyr 2019. Ei ddiben oedd ceisio sylwadau ar ba mor glir a defnyddiol oedd y newidiadau a wnaethom i'r pecyn cymorth diwygiedig.

Roedd yr ymgynghoriad yn cynnwys pedwar cwestiwn penodol ynglŷn â'r canllawiau drafft:

- Esboniwch hefyd sut, yn eich barn chi, y gellid newid y pecyn cwnsela diwygiedig er mwyn helpu i hyrwyddo cysondeb y gwasanaeth cwnsela ledled Cymru a sicrhau bod y ddarpariaeth yr un mor hwylus i bob person ifanc fanteisio arni.

- Ydych chi'n cytuno bod cynnwys y pecyn cwnsela diwygiedig yn briodol ac yn effeithiol? Os nad ydych, pa newidiadau pellach sydd eu hangen?

- Ydych chi o'r farn bod y pecyn cwnsela diwygiedig yn cynnig y lefel iawn o gymorth i ddarparwyr cwnsela a rheolwyr gwasanaethau cwnsela o ran yr arferion gorau wrth ddarparu'r gwasanaeth mewn ysgol ac o fewn cymuned?

- Ar ôl cyhoeddi'r pecyn cwnsela diwygiedig, pa weithgarwch (os o gwbl) (hyfforddiant a/neu weithgarwch codi ymwybyddiaeth ymhlith cynulleidfaoedd penodol, er enghraifft) fydd ei angen?

Roedd cwestiynau pellach yn gwahodd yr ymatebwyr i nodi a oeddent yn teimlo y gallai'r pecyn cymorth diwygiedig gael unrhyw effaith gadarnhaol neu negyddol ar yr iaith Gymraeg.  Gwahoddwyd ymatebwyr hefyd i gynnig unrhyw sylwadau pellach nad oeddent wedi'u cwmpasu gan y cwestiynau penodol.

## Crynodeb o'r Ymatebion i'r Ymgynghoriad

Cafodd yr Ymgynghoriad **20** o ymatebion – 6 drwy system ymgynghori ar-lein Llywodraeth Cymru a 14 drwy e-bost. Cyflwynwyd 2 ymateb yn Gymraeg. Daeth y rhan fwyaf o'r ymatebion o wasanaethau cwnsela a darparwyr gwasanaethau cwnsela yr awdurdod lleol (gan gynnwys BACP). Roedd ymatebwyr eraill, gan gynnwys Estyn, Swyddfa Comisiynydd Plant Cymru, yr Asiantaeth Safonau Proffesiynol, undebau dysgu, y trydydd sector a dau unigolyn preifat.

Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebion yn croesawu'r pecyn cymorth diwygiedig. Ni wnaeth pob ymatebydd ymateb i bob cwestiwn a dewisodd rhai beidio ag ymateb i'r cwestiynau o gwbl – gan ddewis rhoi nodiadau, sylwadau a newidiadau wedi'u tracio yn y testun. Darperir isod grynodeb o'r ymatebion a detholiad o sylwadau, wedi'u grwpio yn ôl themâu:

**Cwestiwn 1 – Esboniwch hefyd sut, yn eich barn chi, y gellid newid y pecyn cwnsela diwygiedig er mwyn helpu i hyrwyddo cysondeb y gwasanaeth cwnsela ledled Cymru a sicrhau bod y ddarpariaeth yr un mor hwylus i bob person ifanc fanteisio arni.**

(a) Cyffredinol

Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebion yn gadarnhaol iawn am gynnwys y canllawiau diwygiedig. Mae'r canlynol yn nodweddu ymatebion i'r cwestiwn hwn:

*"O ystyried yr amrywiaeth o ran poblogaethau, systemau, strwythurau ac adnoddau ar draws y 22 o awdurdodau lleol yng Nghymru, mae'n anodd gweld sut y gallai'r pecyn cymorth cwnsela diwygiedig gael ei wella ymhellach i gyflawni'r amcan hwn."*

*"Mae'r ddogfen yn gynhwysol iawn, felly yn ein barn ni, nid oes angen ei newid. Y newid y byddem yn ei ragweld fyddai sicrhau bod y gwasanaeth a ddarperir gan awdurdodau lleol yn deg."*

*"Rydym yn croesawu'r fersiwn ddiwygiedig hon o'r pecyn cymorth gweithredu cwnsela mewn ysgolion ac yn y gymuned. Mae'r newid i'r teitl i gynnwys gwaith sy'n mynd rhagddo yn y gymuned, ac ar-lein, yn adlewyrchu'r newidiadau a wnaed i gwmpas gwasanaethau cwnsela i blant a phobl ifanc a wnaed ers 2011. Fel sefydliad sy'n darparu gwasanaethau cwnsela i blant a phobl ifanc mewn ysgolion a lleoliadau cymunedol drwy lwybrau addysg a chymorth teulu, rydym yn gwerthfawrogi'r ffaith bod angen ehangu cwmpas gwasanaethau cwnsela priodol o ansawdd da o fewn fframwaith gweithredu proffesiynol."*

(b) Cydberthnasau â phlant a gofynion CCUHP

Teimlodd dau ymatebydd y dylai'r pecyn cymorth gynnwys mwy o wybodaeth am sut i gynnwys plant a phobl yn y gwaith o ddatblygu gwasanaethau cwnsela. Roedd un hefyd yn canolbwyntio ar sut y gallai mabwysiadu dull gweithredu sy'n canolbwyntio ar hawliau'r plentyn o ran darparu gwasanaethau cwnsela wella'r pecyn cymorth drafft:

*“Gellir gwella'r pecyn cymorth hwn drwy bwysleisio pwysigrwydd cydberthnasau â phlant a phobl ifanc o'r cychwyn cyntaf – gan weithio gyda nhw fel defnyddwyr gwasanaethau unigol ac fel grwpiau â phrofiad, a all helpu i wella'r ffordd y caiff gwasanaethau eu darparu drwy rannu'r profiadau hyn.”*

*"Gallai hawliau plant o dan CCUHP fod yn sail i'r pecyn gwaith hwn, ac annog awdurdodau lleol i ystyried y ffordd y mae'r gwasanaethau yn cynnig cymorth ac yn hyrwyddo'r hawliau hyn, ac rwy'n gobeithio y gall Llywodraeth Cymru weithio i ymgorffori'r egwyddorion hyn yn well yn y ddogfen hon."*

Rydym wedi cynnwys rhagor o gyngor ar y sut y gellir gwneud hyn yn fersiwn derfynol y pecyn cymorth.

(c) Gwerthuso

Roedd tri ymatebwr wedi gwneud sylwadau penodol ar y ffaith bod angen i'r pecyn cymorth gynnwys mwy o ganllawiau ar werthuso gwasanaethau:

*"Mae'r adran sy'n dwyn y pennawd 'Monitro canlyniadau/gwerthuso gwasanaethau' yn canolbwyntio ar ganlyniadau ac nid yw'n darparu canllawiau ar werthuso gwasanaethau. Mae angen gwella'r broses o werthuso'r gwasanaeth. Er enghraifft, mae gwahaniaethau sylweddol ledled Cymru yng nghyfran y disgyblion sy'n defnyddio'r gwasanaeth, nifer cyfartalog y sesiynau cwnsela, nifer cyfartalog y sesiynau a gollwyd a'r newid cyfartalog mewn sgoriau cyn ac ar ôl mynychu'r sesiynau cwnsela. Mae angen gwerthuso'r defnydd y mae grwpiau penodol, gan gynnwys grwpiau agored i niwed, yn ei wneud o'r gwasanaeth, yn enwedig lle mae dyletswyddau statudol yn gysylltiedig â grwpiau penodol (e.e. y Gymraeg, nodweddion gwarchodedig)”.*

*"Nid yw'r pecyn cymorth cwnsela diwygiedig yn cyfeirio at broses adolygu parhaus a/neu werthuso darpariaeth gwasanaethau mewn ysgolion ac mewn lleoliadau cymunedol. Dylid awgrymu proses fonitro ffurfiol er mwyn penderfynu a yw darparwyr gwasanaethau cwnsela yn gweithio yn unol â chanllawiau'r pecyn cymorth ar arferion gorau?*

*“Dylai'r gwaith o werthuso gwasanaeth fyfyrio ar y ddarpariaeth Gymraeg a ph'un a yw gwasanaeth o'r fath yn wahanol i'r ddarpariaeth Saesneg o ran agweddau megis argaeledd, amseroedd aros a chanlyniadau.”*

Bydd y pecyn cymorth terfynol yn pwysleisio pwysigrwydd gwerthuso priodol wrth ddatblygu gwasanaethau cymorth cwnsela effeithiol.

(d) Mynediad

Nododd dau ymatebwr fod angen i'r pecyn cymorth gynnwys mwy o wybodaeth am bwysigrwydd sicrhau tegwch o ran mynediad i wasanaethau cwnsela fel a ganlyn:

*"Gellid gwella'r adran sy'n dwyn y pennawd 'Grwpiau eraill o blant a phobl ifanc ag anghenion penodol' ymhellach drwy gynnwys rhagor o gyngor a chanllawiau penodol mewn perthynas â hyrwyddo a darparu gwasanaethau cwnsela i grwpiau sy'n agored i niwed nad ydynt wedi'u cwmpasu yn yr adran hon ar hyn o bryd – er enghraifft, plant sy'n cael eu haddysgu gartref a disgyblion sydd â Saesneg fel Iaith Ychwanegol.*

*"Mae data o arolwg cwnselwyr Cymru yn awgrymu bod cwnselwyr mewn ysgolion yn y DU yn bennaf yn ferched (85%), gwyn (90%). Efallai y bydd angen mynd i'r afael â'r ffactor hwn petai'r gwaith o gynyddu mynediad teg i fechgyn a phlant a phobl ifanc Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig (BAME) yn cael ei hwyluso.*

*"Yn ein profiad ni, a rennir â darparwyr eraill, gall mynediad, tegwch ac ansawdd gael eu tanseilio drwy beidio â neilltuo digon o arian i wasanaethau mewn amgylchedd lle mae nifer y plant a'r bobl ifanc y mae materion a phroblemau iechyd meddwl yn effeithio arnynt yn cynyddu'n gyson."*

Caiff y pecyn cymorth terfynol ei ymestyn i gynnwys gwybodaeth ychwanegol am sicrhau mynediad i ddarpariaeth gwnsela ar gyfer grwpiau eraill o blant a phobl ifanc sy'n agored i niwed.

(e) Rhestrau aros

Roedd dau ymatebwr arall yn teimlo y dylai'r pecyn cymorth gynnwys mwy o ganllawiau ar reoli rhestrau aros. Gwnaethant hefyd gyflwyno sylwadau ar effeithiau rhestrau aros hir ar gyfer gwasanaethau cwnsela ar bobl ifanc, gan nodi diffyg buddsoddiad yn gyffredinol:

*"Nid oes unrhyw ganllawiau gwirioneddol wedi'u pennu yn y Pecyn Cymorth o ran yr hyn a ystyrir yn gyfnod 'rhesymol' o amser i berson ifanc fod ar restr aros ar gyfer gwasanaethau cwnsela. Beth ddylai Ysgolion ei wneud pan fydd rhestrau aros ar gyfer gwasanaethau cwnsela yn hir?"*

*"Yn aml, gall y cyfnod aros hwn arwain at effaith andwyol at iechyd a llesiant person ifanc, ac ar ei allu i ymgysylltu ag addysg, a dysgu oddi wrthi, ochr yn ochr â'i gymheiriaid. Mae buddsoddiad mewn gwasanaethau iechyd meddwl wedi'i ddogfennu'n dda ac mae ei angen yn fawr, gan na all ysgolion lenwi bylchau diffyg darpariaeth."*

Rydym wrthi'n ystyried yr angen am werthusiad mwy ffurfiol o'r ddarpariaeth gwnsela, i gynnwys asesiad o effeithiolrwydd y gwasanaeth sy'n bodoli ar hyn o bryd. Yn amlwg, bydd problem rhestrau aros yn rhan o'r adolygiad hwn.

(f) Gwahaniaethau mewn gwasanaethau cwnsela i ddisgyblion cynradd ac uwchradd

Roedd dau ymatebwr yn teimlo ei bod yn bwysig y dylai'r pecyn cymorth bwysleisio'r gwahanol sgiliau sydd eu hangen wrth gwnsela disgyblion cynradd yn wahanol i'r rheini mewn lleoliadau uwchradd.

*"Argymhelliad arall yw sicrhau bod gan oruchwylydd cwnselydd mewn ysgol uwchradd brofiad o weithio mewn ysgol uwchradd ei hun ac felly'n gyfarwydd â'r system hon yn ogystal â grŵp oedran cleient hwn. Lle y bo'n bosibl, ni ddylid derbyn goruchwylwyr os byddant ond wedi gweithio mewn ysgolion cynradd neu gyda chleientiaid ysgolion cynradd. Mae'r ddau grŵp oedran hwn yn wahanol iawn ac mae angen sgiliau gwahanol ar eu cyfer."*

*"Mae'r pecyn cymorth yn glir o ran y dylai gwasanaeth fod ar gael i bob disgybl Blwyddyn 6. Fodd bynnag, nid yw'r pecyn cymorth yn rhoi unrhyw ganllawiau penodol ar ddarparu gwasanaethau mewn ysgolion. Gwnaeth ein hadroddiad 'Iach a hapus' (adroddiad thematig Estyn) ganfod bod mynediad i wasanaethau cwnsela mewn ysgolion cynradd yn amrywio ledled Cymru. Gall fod yn ddefnyddiol i atgyfnerthu'r pecyn cymorth i sicrhau tegwch ledled Cymru i ddisgyblion Blwyddyn 6."*

**Cwestiwn 2 – Ydych chi'n cytuno bod cynnwys y pecyn cwnsela diwygiedig yn briodol ac yn effeithiol? Os nad ydych, pa newidiadau pellach sydd eu hangen?**

(a) Cyffredinol

Eto, roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn cytuno bod cynnwys y pecyn cymorth cwnsela diwygiedig yn briodol ac yn effeithiol.

*“Mae'r Fframwaith Cwnsela yn ategu'r canllawiau newydd a gyhoeddwyd yn ddiweddar ar ymateb i hunan-niweidio a theimladau hunanladdol ymhlith pobl ifanc. Mae'r wybodaeth gefndirol yn sicrhau bod gweithwyr proffesiynol yn gallu gwneud y cysylltiadau rhwng agendâu a Strategaethau Cenedlaethol: Strategaeth Iechyd Meddwl Llywodraeth Cynulliad Cymru, Hawliau'r Plentyn a dogfennaeth ddeddfwriaethol eraill megis Mesur Iechyd Meddwl Cymru Gyfan, Bil Anghenion Dysgu Ychwanegol, Gweithdrefnau Diogelu. Gwnaed cyfeiriadau da at faterion yn ymwneud â phrofiadau niweidiol yn ystod plentyndod a’u heffaith ar iechyd meddwl."*

*"Mae'r astudiaethau achos yn ddefnyddiol ac yn tynnu sylw at effeithiau cadarnhaol cwnsela ar bobl ifanc."*

*"Mae'r adrannau eraill wedi'u hysgrifennu'n glir ac yn darparu canllawiau ymarferol ar faterion hanfodol megis rôl y cwnselydd; pwysigrwydd gweithio o fewn fframwaith moesegol ar gyfer cwnselwyr; delio â chwynion; diogelwch a chyfrinachedd; goruchwylio a rheolaeth llinell."*

*"Mae canllawiau clir hefyd ar gefnogi cwnselwyr dan hyfforddiant, sicrhau DPP parhaus ac Amddiffyn Plant."*

Fodd bynnag, teimlodd un ymatebwr bod y ddogfen wedi'i rhannu'n amhriodol yn ddwy ran, gan ganolbwyntio'n gyntaf ar atgyfeirio plant a phobl ifanc i wasanaethau cwnsela, ac yna ar y rheolwyr a gofynion y cwnselydd. Roedd o'r farn nad oedd hwn yn gymysgedd cyfforddus. Teimlodd:

*"Dylid ystyried p'un a fyddai dogfen sy'n fwy ystyriol o ysgolion yn fwy defnyddiol, gyda gofynion y diwydiant cwnsela mewn dogfen ar wahân, neu mewn atodiad."*

Roedd nifer o awgrymiadau pellach ynghylch y ffordd y gellir mireinio'r ddogfen ymhellach a'i gwella ac mae'r rhain wedi'u nodi yn yr adrannau canlynol yng ngeiriau'r ymatebwr ei hun.

<u>(b) Cysondeb iaith</u>
Roedd gan un ymatebwr bryderon ynghylch anghysondeb yr iaith a ddefnyddir yn y pecyn cymorth.

"Mae'r iaith a ddefnyddir i ddisgrifio anawsterau plant a phobl ifanc yn anghyson, gan fynd o drafod anawsterau o ran iechyd a llesiant emosiynol i iechyd meddwl. Er bod angen gwerthfawrogi'r angen i gydnabod a chefnogi'r rheini ag anawsterau iechyd meddwl sy'n dod i'r amlwg ac anawsterau iechyd meddwl a nodir, mae angen i hyn fod yng nghyd-destun y boblogaeth ehangach sy'n defnyddio gwasanaethau cwnsela mewn ysgolion neu yn y gymuned. Mae'r derminoleg 'llesiant emosiynol' yn fwy priodol yn y cyd-destun hwn."

Mae fersiwn derfynol y pecyn cymorth wedi mynd i'r afael â hyn.

<u>(c) Dull gweithredu ysgol gyfan</u>
Rhoddodd dau ymatebwr sylwadau penodol ar bwysigrwydd gwasanaethau cwnsela fel rhan o ddull ysgol gyfan o gefnogi gwasanaethau iechyd meddwl.

*"Dylid pwysleisio'n gryf, ni waeth ym mha ffordd y cânt eu darparu, dylid integreiddio gwasanaethau cwnsela mewn ysgolion yn llawn i'r continwwm o gefnogaeth sydd ar gael i blant a phobl ifanc yng nghyd-destun dull gweithredu ysgol gyfan ar gyfer llesiant emosiynol."*

"*Mae'n beth da bod y pecyn cymorth yn sicrhau bod cwnsela yn cael ei ystyried fel rhan o'r dull gweithredu ysgol gyfan ar gyfer hybu iechyd meddwl a llesiant."*

<u>(ch) Achrediad cwnselwyr</u>
Nododd un ymatebwr y sylw canlynol mewn perthynas ag achrediad cwnselwyr:

*"Byddem yn argymell y gallai'r canllawiau gyfeirio'n gliriach at bwysigrwydd sicrhau bod cwnselwyr wedi'u cynnwys ar Gofrestr Achrededig o bosibl, yn ogystal â sicrhau eu bod yn gweithio o fewn fframwaith moesegol ac yn meddu ar brofiad perthnasol a chymhwysedd amlwg o ran gweithio gyda phlant a phobl ifanc.*

<u>(d) Amddiffyn cwnselwyr</u>

Roedd un ymatebwr hefyd yn teimlo y gellid atgyfnerthu'r pecyn cymorth i dynnu sylw at gyfrifoldeb yr ysgol i sicrhau diogelwch y cwnselydd:

*"Cytundeb bod yr ysgol hefyd yn atebol i'r cwnselydd o ran bodloni ei rhwymedigaethau o ran ei ddiogelwch/diogelwch yn yr ysgol. Hefyd, dylai fod gan y cwnselydd yr hawl i roi adborth ar ei ymdeimlad/hymdeimlad o gynnydd a dylai hyn gynnwys ei ymdeimlad/hymdeimlad o ddiogelwch yn yr ysgol. Dylai fod gan bob cwnselydd yr hawl i adael yr ysgol os na fydd yn teimlo'n ddiogel yno."*

*"Dylid cynnwys hawliau penodol eraill ar gyfer y cwnselydd yn y contract cychwynnol. Yn wahanol i unrhyw aelod arall o staff yr ysgol, nid yw'n aelod o undeb."*

<u>(dd) Atgyfeiriadau uniongyrchol at y Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHS)</u>

Roedd dau berson wedi mynegi pryderon ynghylch y broses atgyfeirio at CAMHS, sy'n anghyson ymhlith awdurdodau yng Nghymru:

"*Gellid datblygu'r rhyngberthynas â gwasanaethau CAMHS arbenigol, gan bwysleisio'r broses o gynyddu neu leihau'r cymorth i blant a phobl ifanc y mae eu hanghenion yn newid o hyd."*

*"Yn fy marn i, petawn ni fel cwnselwyr yn gallu gwneud atgyfeiriadau at CAMHS, byddai'r atgyfeiriadau hyn yn rhai uniongyrchol, trylwyr a chywir, a gyda chaniatâd y person ifanc, byddwn yn gallu rhannu gwybodaeth ychwanegol."*

<u>(e) Hunaniaeth o ran rhywedd</u>

Mynegodd un ymatebwr y canlynol mewn perthynas â hunaniaeth o ran rhywedd:

"Dylai'r canllawiau adlewyrchu cydberthynas gymhleth hunaniaeth plant a phobl ifanc o ran rhywedd a'r ffordd y maent yn eu mynegi eu hunain a, lle bynnag y bo'n bosibl, osgoi defnyddio disgrifyddion sy'n pennu rhyw unigol."

Bydd rhagor o wybodaeth am y mater hwn ar gael yn fersiwn derfynol y pecyn cymorth.

<u>(f) Gwasanaethau cwnsela ar-lein</u>

Nododd un ymatebwr y canlynol mewn perthynas â gwasanaethau cwnsela ar-lein.

*"Byddai rhagor o ganllawiau ar ddefnyddio'r gwasanaethau cwnsela ar-lein a rhai*

*enghreifftiau o arferion gorau yn ychwanegiad da."*

Mae Llywodraeth Cymru yn y broses o ystyied yr angen am werthusiad mwy ffurfiol o'r ddarpariaeth gwnsela. Bydd hyn yn cynnwys y ddarpariaeth gwnsela ar-lein.

**Cwestiwn 3 – Ydych chi o'r farn bod y pecyn cwnsela diwygiedig yn cynnig y lefel iawn o gymorth i ddarparwyr cwnsela a rheolwyr gwasanaethau cwnsela o ran yr arferion gorau wrth ddarparu'r gwasanaeth mewn ysgol ac o fewn cymuned?**

(a) Cyffredinol

Rhoddodd y mwyafrif helaeth o ymatebwyr ymatebion ffafriol mewn perthynas â'r cwestiwn hwn. Gweler detholiad o'u hymatebion fel a ganlyn:

*"Mae'n darparu canllawiau cynhwysfawr, er enghraifft ar ddefnyddio lleoliadau cymunedol, gweithio ar eich pen eich hun a chael gafael ar wasanaethau cwnsela drwy TG."*

"*Mae'r ddogfen yn adlewyrchu'r cynnydd a wnaed ac yn darparu lefel briodol o arweiniad a chymorth. Mae'n arbennig o ddefnyddiol i'r rheini sy'n newydd i'r broses rheoli gyffredinol neu ddarparu gwasanaethau cwnsela mewn ysgolion ac yn y gymuned yn uniongyrchol."*

*"Mae'r canllawiau ar gwnselwyr yn gofalu am eu llesiant eu hunain yn ychwanegiad i'w groesawu at y pecyn cymorth."*

*"Mae'r Canllawiau yn nodi cyngor ymarferol ac argymhellion ar rôl y Cwnselydd, yr Awdurdod Lleol a'r Ysgol yn glir, yn ogystal â phartneriaid eraill mewn perthynas â meithrin perthynas, cyfrinachedd a rhannu gwybodaeth (GDPR), defnyddio ystafell ddynodedig, asesu a gwerthuso a monitro.*

*"Mae'r pecyn cymorth diwygiedig yn darparu lefel dda o gymorth ynghylch arfer gorau mewn ysgolion a lleoliadau cymunedol."*

Roedd ychydig o newidiadau/materion eraill i'w cynnwys a argymhellir fel a ganlyn:

(a) Cymwysterau a phrofiad cwnselwyr

*"Er bod cynnwys y pecyn cymorth yn briodol ac yn effeithiol o ran ymdrin â chymorth i gwnselwyr sy'n fyfyrwyr, cwnselwyr dan hyfforddiant a chwnselwyr profiadol, mae angen gwneud mwy i sicrhau bod gan bob cwnselydd oruchwyliwr sydd â phrofiad*

| |
|---|
| *helaeth o gwnsela, gwybodaeth a dealltwriaeth o gwnsela plant a phobl ifanc, yn ogystal â gwybodaeth am leoliad ysgol er mwyn darparu cymorth."*<br><br>*"Gallai'r canllawiau gyfeirio'n gliriach at bwysigrwydd sicrhau bod cwnselwyr wedi'u cynnwys ar Gofrestr Achrededig o bosibl, yn ogystal â sicrhau eu bod yn gweithio o fewn fframwaith moesegol ac yn meddu at brofiad perthnasol a chymhwysedd amlwg o ran gweithio gyda phlant a phobl ifanc.*<br><br>*"Byddai'n ddefnyddiol i Lywodraeth Cymru gyfeirio pobl at ein hadnodd 'gwiriwch ymarferydd' ar ein gwefan sy'n darparu ffordd hawdd i ysgolion a'r cyhoedd wirio cofrestrau –https://www.professionalstandards.org.uk/cy/chwilio-am-ymarferwyr."*<br><br>Caiff y materion hyn eu pwysleisio yn y canllawiau terfynol a gyhoeddir.<br><br><u>(b) Goruchwylio cwnselwyr</u><br><br>*"Teimlwn fod yn rhaid i'r pecyn cymorth bwysleisio'r ffaith bod yn <u>rhaid</u> i gwnselwyr ymgymryd â goruchwyliaeth glinigol gyda goruchwyliwr sydd â phrofiad helaeth o gwnsela, gwybodaeth a dealltwriaeth o gwnsela plant a phobl ifanc, yn ogystal â gwybodaeth am leoliad ysgol, a dylai hyn fod yn arfer safonol nid dim ond arfer gorau. Yn yr un modd, mae'n bwysig bod gan gwnselwyr oruchwylwyr sy'n defnyddio eu dewis iaith."*<br><br>Eir i'r afael â hyn hefyd yn y canllawiau terfynol a gyhoeddir. |
| **Cwestiwn 4 – Ar ôl cyhoeddi'r pecyn cwnsela diwygiedig, pa weithgarwch (os o gwbl) (hyfforddiant a/neu weithgarwch codi ymwybyddiaeth ymhlith cynulleidfaoedd penodol, er enghraifft) fydd ei angen?**<br><br>Mae'r ymatebion yn y categori hwn wedi'u grwpio o dan bedair prif thema fel a ganlyn:<br><br><u>(a) Codi ymwybyddiaeth/hyrwyddo</u><br><br>*"Bydd angen codi ymwybyddiaeth ar gyfer cynulleidfaoedd fel meddygon teulu, aelodau'r cynulliad (yn aml, nid ydynt yn gwybod y gwahaniaeth rhwng cwnsela unigol ac ymyriad grŵp therapi gwybyddol ymddygiadol ysgafn gyda hwyluswyr), timau troseddwyr ifanc, prosiectau gofalwyr. Serch hyn, mae angen sicrhau bod oriau rhydd ar gael fel y gall y staff wneud pethau fel hyn."*<br><br>*"Bydd angen hyrwyddo hyn ymhlith Penaethiaid, Cydlynwyr Anghenion Dysgu Ychwanegol, Penaethiaid Blwyddyn, arweinwyr Llesiant/Gofal Bugeiliol mewn ysgolion."*<br><br>*"Bydd angen Codi Ymwybyddiaeth yn Rhanbarthol o fewn y consortia ar gyfer pob arweinydd ysgol, seicolegwyr addysg, nyrsys ysgol, gweithwyr proffesiynol CAMHS,* |

*rheolwyr gwasanaethau cwnsela, Arweinwyr Anghenion Dysgu Ychwanegol, Rheolwyr Uned Cyfeirio Disgyblion."*

*"Mae angen gwneud rhagor o waith i hyrwyddo gwasanaeth i grwpiau sy'n agored i niwed ac i ddisgyblion Blwyddyn 6, gan weithio gyda phartneriaid perthnasol i gyflawni hyn."*

*"Codi ymwybyddiaeth drwy'r wasg, y cyfryngau cymdeithasol, sefydliadau ieuenctid, ysgolion, taflenni, posteri."*

## (b) Hyfforddiant

*"Mae angen diwallu anghenion hyfforddi er mwyn galluogi athrawon, gweithwyr ieuenctid ac eraill sy'n gweithio i gefnogi pobl ifanc i gael sgyrsiau effeithiol â nhw cyn bod angen darparu gwasanaethau cwnsela."*

*"Bydd angen yn bendant i'r gweithlu addysg mewn ysgolion gael hyfforddiant i sicrhau eu bod yn deall natur y gwasanaeth, pryd a sut i atgyfeirio (gan gynnwys systemau a chyfrifoldebau yn yr ysgol), a'r darpariaethau perthnasol o ran cyfrinachedd ac ati. Bydd y math hwn o hyfforddiant yn berthnasol i athrawon a chynorthwywyr ystafell ddosbarth ar lefel uwchradd a Chyfnod Allweddol 2 / Blwyddyn 6 mewn ysgolion cynradd."*

*"Mae'n glir bod hyfforddiant ar gynnwys y pecyn cymorth ar gyfer athrawon cymwys ac athrawon newydd gymhwyso a staff eraill yr ysgol, yn bwysig. Bydd angen i staff newydd sy'n mynd i mewn i ysgolion ar adeg lle mae cefnogi llesiant ac iechyd meddwl mewn ysgolion yn gymaint o flaenoriaeth, ochr yn ochr â chwricwlwm newydd, fod yn glir ynghylch diben gwasanaethau cwnsela mewn ysgolion, sut maent yn gweithio a'r safonau moesegol sy'n gysylltiedig â'r gwasanaethau hyn."*

*"Gellid rhoi sesiynau lefel clwstwr ar waith er mwyn creu fforymau trafod ar gyfer Penaethiaid / aelodau o'r Uwch-dîm Arwain gyda darpariaeth gwnsela fel maes cyfrifoldeb. Dylai'r meysydd ffocws gynnwys: adolygu'r trefniadau sydd ar waith ar hyn o bryd mewn ysgolion, beth sy'n gweithio'n dda, beth sydd angen ei wella, sut y gellir gwneud hyn. Byddai hyn yn galluogi ysgolion i gael budd o gyd-feddwl a ffyrdd creadigol o feddwl yn ogystal â monitro'r ffordd y caiff gwasanaethau eu darparu er mwyn sicrhau ei bod yn unol â chanllawiau arfer gorau."*

*"Rydym o'r farn ei bod yn hanfodol bod gweithwyr proffesiynol mewn ysgolion ac ym maes addysg yn gallu cael gafael ar hyfforddiant o ansawdd uchel, yn enwedig mewn perthynas â Maes Dysgu a Phrofiad Iechyd a Llesiant yn y cwricwlwm newydd, lle mae cefnogi iechyd emosiynol a llesiant pob un o'u dysgwyr yn hanfodol.*

## (c) Gwybodaeth

*"Mae'n rhaid i reolwyr yr ysgol, yn enwedig y 'person cyswllt', gael mwy o wybodaeth o lawer am gwnsela a'r hyn y mae'n ei gynnig a'r hyn nad yw'n ei gynnig. Yn benodol, dylai eu hyfforddiant gwmpasu cyfrinachedd cwnselydd, caniatâd y cleient, nodau therapiwtig a chanlyniadau realistig cymhleth (nad ydynt wedi'u gorliwio gan wasanaethau cwnsela sy'n ceisio cyllid gan ysgolion). Dylai'r canlyniadau realistig*

*gwmpasu cleientiaid nad ydynt wedi gwella yn ôl unrhyw fesurydd cwnsela traddodiadol, ond sy'n adrodd bod y gwasanaeth yn foddhaol.*

(ch) Cymeradwyaeth gan Lywodraethwyr yr Ysgol

*"Gall fod yn ddefnyddiol pennu gofyniad yn y ddogfen i lywodraethwyr yn yr ysgol llofnodi'r ddogfen, fel ymrwymiad i ddangos eu bod wedi darllen a deall y pecyn cymorth ac y byddant yn cefnogi'r ddarpariaeth yn eu hysgolion."*

**C5 – Effeithiau'r pecyn cymorth gweithredu drafft ar gyfer cwnsela mewn ysgolion a chymunedau ar y Gymraeg**

**C6 – Sut gellid newid y pecyn cymorth arfaethedig fel bod effeithiau cadarnhaol/fel nad oes effeithiau andwyol ar gyfleoedd pobl i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol**

Roedd sylwadau'r rhan fwy o ymatebwyr yn canolbwyntio ar ddau brif fater – sicrhau bod gwasanaethau cwnsela drwy gyfrwng y Gymraeg ar gael i'r disgyblion hynny sydd eu hangen, ac anawsterau o ran recriwtio cwnselwyr sy'n siarad Cymraeg.

(a) Recriwtio cwnselwyr sy'n siarad Cymraeg

*"Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg. Mae angen sicrhau bod yr adnoddau cwnsela a'r gwasanaethau ar gael yn Gymraeg. Gall fod yn anodd recriwtio cwnselwyr sy'n siarad Cymraeg sydd â'r sgiliau cywir."*

*"Helpu staff i wella eu sgiliau Cymraeg."*

*"Rydym yn ymwybodol ei bod yn anodd recriwtio cwnselwyr sy'n siarad Cymraeg mewn llawer o ardaloedd. Dylai fod cyfleoedd ar gael i staff cwnsela presennol ddysgu Cymraeg, yn ogystal â chyfleoedd i siaradwyr Cymraeg ddefnyddio eu hiaith i ennill cymwysterau cwnsela, er mwyn gwireddu'r cynnig rhagweithiol."*

(b) Darpariaeth gwnsela drwy gyfrwng y Gymraeg

*"Os na fydd gwasanaethau cwnsela yn gallu cynnig gwasanaeth drwy gyfrwng y Gymraeg, bydd hyn yn cael effaith andwyol."*

*“Dylai Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol sicrhau bod pobl ifanc y mae'n well ganddynt gael gwasanaeth cwnsela yn Gymraeg yn gallu cael yr un gwasanaeth â'r rhai hynny y mae'n well ganddynt gael gwasanaeth cwnsela yn Saesneg.”*

*“Dylai'r gwaith o werthuso gwasanaeth fyfyrio ar y ddarpariaeth Gymraeg a ph'un a yw gwasanaeth o'r fath yn wahanol i'r ddarpariaeth Saesneg o ran agweddau megis argaeledd, amseroedd aros a chanlyniadau.”*

*“Rydym yn pryderu ynghylch i ba raddau y bydd ysgol cyfrwng Cymraeg neu ysgol ddwyieithog yn gallu cael gafael ar gwnselydd sy'n gweithio drwy gyfrwng y*

*Gymraeg. Yn yr un modd, mae'n bwysig bod gan gwnselwyr oruchwylwyr sy'n defnyddio eu dewis iaith."*

*"Nid oes unrhyw ganllawiau penodol ynghylch sicrhau y gellir darparu gwasanaethau cwnsela yn Gymraeg, a fyddai'n golygu y byddai angen sicrhau bod gweithwyr proffesiynol cwnsela sy'n siarad Cymraeg ar gael."*

*"Mae'n bwysig sicrhau bod gwasanaethau cwnsela ar gael i blant a phobl ifanc yn yr iaith sydd fwyaf naturiol iddynt, fel y gallant deimlo mor gyfforddus â phosibl wrth drafod materion sy'n ddwys, cymhleth a phoenus. Yn amlwg, dylai'r cynnig fod yn rhagweithiol, ac ni ddylai'r plentyn neu'r person ifanc orfod ofyn amdano'n benodol."*

<u>(c) Newid y pecyn cymorth i sicrhau effeithiau cadarnhaol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r iaith Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.</u>

*"Mae'r ddogfen yn cyfeirio'n briodol at Ddeddf yr Iaith Gymraeg, ond nid yw'n datblygu canllawiau y tu hwnt i godi ymwybyddiaeth.*

*Dylai'r ddogfen hyrwyddo argaeledd gwasanaethau cwnsela drwy gyfrwng y Gymraeg, a sicrhau bod darparwyr gwasanaeth yn ystyried ieithoedd cymunedol eraill."*

*"Mae angen cynnwys sylw ar bwysigrwydd sicrhau bod gwasanaeth dwyieithog ar gael i'r rhai sy'n gofyn amdano a'r ffordd y dylai awdurdodau lleol ymdrechu i benodi cwnselwyr dwyieithog lle bynnag y bo'n bosibl."*

*"Mae angen sicrhau bod gwasanaeth cwnsela ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg i unrhyw berson ifanc sy'n gofyn amdano. Mae angen bod cwnselwyr dwyieithog ar gael ym mhob ardal."*

*"Mae mater ehangach na chanllawiau'r pecyn cymorth. Er mwyn sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg mae angen darparu cyrsiau cwnsela yn Gymraeg ac yn Saesneg – nid yw'n glir faint o gyrsiau cyfrwng Cymraeg sy'n bodoli."*

**Sylwadau ychwanegol**

Roedd y sylwadau yn cynnwys:

<u>(a) Enghreifftiau o arfer gorau</u>

*"Gwelir arfer gorau yn yr astudiaethau achos mewn perthynas ag effaith gadarnhaol cwnsela ar bobl ifanc. Fodd bynnag, byddai mwy o enghreifftiau o arfer gorau gan awdurdodau lleol mewn perthynas â strwythur a darpariaeth gwasanaeth cwnsela yn ddefnyddiol i reolwyr."*

*"Byddai rhai enghreifftiau o arfer gorau gan Awdurdodau Lleol mewn perthynas â*

*darpariaeth/strwythur yn gwella'r Canllawiau, e.e. Defnyddio cwnsela grŵp, darpariaeth gwnsela wedi'i thargedu ar gyfer materion penodol e.e. pobl drawsrywiol"*

*"Mae ymyrraeth gynnar yn hollbwysig wrth ymdrin yn effeithiol â disgyblion sy'n wynebu anawsterau iechyd emosiynol. Rydym o'r farn y byddai canllawiau tebyg ar arfer gorau yn y maes hwn yn ddefnyddiol i ysgolion cynradd a byddem yn fwy na pharod i gyfrannu at y gwaith o'u datblygu."*

<u>(b) Materion cyllid</u>

Ystyriwyd mai'r ffaith nad yw'r gwasanaethau cwnsela yn cael digon o gyllid yn gyffredinol yn un o'r prif rwystrau. Roedd sylwadau yn cynnwys y canlynol:

*"Yn ein profiad ni, a rennir â darparwyr eraill, gall mynediad, tegwch ac ansawdd gael eu tanseilio drwy beidio â neilltuo digon o arian i wasanaethau mewn amgylchedd lle mae nifer y plant a'r bobl ifanc y mae materion a phroblemau iechyd meddwl yn effeithio arnynt yn cynyddu'n gyson."*

*"Mae realiti pob dydd y ffaith nad oes digon o gyllid ar gyfer gwasanaethau o'r fath yn golygu na fydd llawer o bobl ifanc yn gallu cael gafael arnynt o gwbl, neu, yn aml, dim ond ar ôl cyfnod sylweddol o aros. Mae ein haelodau yn dweud wrthym fod rhai ysgolion uwchradd mawr (1000+ o ddisgyblion) yng Nghymru ond yn gallu cael gafael ar gwnselydd am un neu ddau ddiwrnod yr wythnos. Mae hyn yn awgrymu bod y gwasanaeth wedi cyrraedd pen ei dennyn ac mae angen mynd i'r afael â'r mater hwn."*

<u>(b) Hyrwyddo iechyd meddwl cadarnhaol</u>

*"Mae'r pecyn cymorth yn nodi mai penaethiaid a chyrff llywodraethu sy'n gyfrifol am faterion iechyd meddwl mewn ysgolion o ddydd i ddydd. Mae hyn yn gwbl amhriodol. Mae gofynion cyfreithiol sy'n codi o Ddogfen Cyflog ac Amodau Athrawon Ysgol yn rhoi cyfrifoldeb ar benaethiaid a llywodraethwyr <u>i hyrwyddo</u> diogelwch ac iechyd emosiynol a llesiant disgyblion. Caiff hyn ei nodi hefyd yng nghanllawiau Llywodraeth Cymru "Meddwl yn gadarnhaol – Iechyd a lles emosiynol mewn ysgolion a lleoliadau Blynyddoedd Cynnar", ac felly mae angen i'r ddogfen hon gael ei diwygio i adlewyrchu hyn."*

<u>(c) Sylwadau gan grŵp o ddisgyblion blwyddyn 6</u>

Mae hwn yn ddetholiad o sylwadau a nodwyd gan grŵp o ddisgyblion blwyddyn 6 a ymatebodd i'r ymgynghoriad:

*"Dylai'r pecyn cymorth adlewyrchu'r canlynol:*

- *dewis (y grŵp hwn) o ran cynnal cwnsela yn yr ysgol;*
- *cynnig gwasanaethau cwnsela ar-lein ochr yn ochr â gwaith wyneb yn wyneb yn hytrach nag yn lle hynny, ac fel arfer drwy sgrin yn hytrach na thrwy sain, neu ohebiaeth drwy neges destun neu e-bost, neu drwy fforwm ar-lein;*

- *dewis y plant o ran a ydynt am i'r cwnselydd helpu'r plentyn i ddod o hyd i'w ffordd ei hun o ymdopi â phroblemau, a thrafod hyn â'r plentyn, gan ystyried ei ddymuniadau'n llawn.*

*Dylid hefyd cynnwys y rheolau canlynol ar gyfer gwasanaethau cwnsela ar-lein yn y pecyn cymorth:*

- *Peidiwch byth â gofyn am gyfeiriad cartref plentyn – na'i god post, tref neu ddinas enedigol;*
- *Peidiwch byth â gofyn i blentyn sy'n defnyddio gwasanaethau cwnsela ar-lein i gyfarfod â chi wyneb yn wyneb;*
- *Peidiwch â gofyn unrhyw gwestiynau amhriodol i blentyn ar-lein."*

## (e) Effeithiau cyfyngiadau adeiladau ar gwnsela

*"Nid yw pob ysgol wedi cael ei hadeiladu i ddarparu ar gyfer gwasanaethau cymorth allanol, megis gwasanaethau cwnsela mewn ysgolion, gwasanaethau nyrsio mewn ysgolion a gwasanaethau therapiwtig eraill. Er y gall ysgolion ddefnyddio gwasanaethau allanol o'r fath, gellir peryglu'r gallu i gael gafael ar y gwasanaethau hyn a'r cyfrinachedd sy'n gysylltiedig â nhw mewn rhai ysgolion o ganlyniad i gyfyngiadau'r adeilad. Lle mae ysgolion yn rhoi blaenoriaeth uchel i'r gwasanaethau hyn, maent yn addasu mannau yn llwyddiannus er mwyn sicrhau preifatrwydd addas mewn amgylchedd hamddenol a deniadol.*

## Y camau nesaf

Mae Llywodraeth Cymru yn croesawu'r ymatebion i'r ymgynghoriad.

Mae ymgynghori ar y pecyn cymorth diwygiedig wedi rhoi cipolwg ar y materion sy'n peri pryder. Mae hefyd wedi helpu i nodi unrhyw ddiffygion yng nghyd-destun y pecyn cymorth ac mae wedi rhoi cyfle i ni eu hystyried cyn y cyhoeddi'r pecyn cymorth hwn. Cafodd pob sylw a dderbyniwyd ei ystyried yn ofalus wrth lunio fersiwn derfynol y canllawiau.

Mae Llywodraeth Cymru o'r farn y bydd y pecyn cymorth yn helpu darparwyr gwasanaethau cwnsela mewn ysgolion ac, yn y gymuned ehangach yn fwyfwy, er mwyn darparu gwasanaethau sydd o ansawdd uchel, yn ddiogel, yn hawdd eu defnyddio ac sydd ar gael pan fo angen.